# Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

**2015 dccc 4**

## RHAN 1

CYFLWYNIAD

### 1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

(1) Mae'r Rhan hon yn darparu trosolwg o'r Ddeddf hon.

(2) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynghylch datblygu cynaliadwy wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu a cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

(3) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn ymwneud â chynllunio datblygu yng Nghymru. Mae'n gwneud darpariaeth—

(a) ar gyfer llunio ac adolygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru;

(b) ar gyfer dynodi ardaloedd cynllunio strategol, sefydlu paneli cynllunio strategol a llunio cynlluniau datblygu strategol;

(c) ynghylch statws Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a chynlluniau datblygu strategol;

(d) ynghylch cynlluniau datblygu lleol (gan gynnwys darpariaeth ynghylch cyfnod para cynlluniau, tynnu cynlluniau yn ôl a chyfarwyddydau i lunio cynlluniau ar y cyd);

(e) i fyrddau cydgynllunio arfer swyddogaethau cynllunio datblygu.

(4) Mae Rhan 3 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a threfniadau ariannol paneli cynllunio strategol.

(5) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth—

(a) ynghylch ymgynghoriad i'w gynnal gan ddarpar ymgeisydd ar gyfer caniatâd cynllunio;

(b) ynghylch gwasanaethau cyn ymgeisio sydd i'w darparu gan awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru.

(6) Mae Rhan 5 o'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwneud ceisiadau penodol i Weinidogion Cymru. Mae'n gwneud darpariaeth—

(a) i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru gael eu gwneud i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i awdurdod cynllunio lleol;

(b) i geisiadau penodol eraill gael eu gwneud naill ai i Weinidogion Cymru neu i awdurdod cynllunio lleol.

(7) Mae Rhan 5 hefyd yn gwneud darpariaeth—

(a) i rai o swyddogaethau penodol Gweinidogion Cymru, o ran ceisiadau a wneir iddynt, gael eu harfer gan berson penodedig;

(b) ar gyfer diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth bresennol o ran gwneud ceisiadau i Weinidogion Cymru.

(8) Mae Rhan 6 o'r Ddeddf hon yn ymwneud â rheoli datblygu a materion cysylltiedig. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch—

(a) gofynion sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer apelau pan fo awdurdod cynllunio lleol yn rhoi hysbysiad nad yw cais yn ddilys;

(b) hysbysiadau am benderfyniadau i roi caniatâd cynllunio;

(c) hysbysiadau am ddechrau datblygiad y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer;

(d) cyfnod para'r caniatâd cynllunio;

(e) ymgynghori yng nghyswllt ceisiadau ar gyfer cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl a cheisiadau penodol eraill;

(f) trefniadau i'w gwneud gan awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio.

(9) Mae Rhan 6 hefyd—

(a) yn cymhwyso i Gymru ddarpariaeth statudol bresennol ynghylch o dan ba amgylchiadau y caiff awdurdod cynllunio lleol wrthod penderfynu ar ôl-gais;

(b) yn gwneud darpariaeth ynghylch cau llwybrau cyhoeddus;

(c) yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau byrddau cydgynllunio ac ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i sefydlu byrddau cydgynllunio.

(10) Mae Rhan 7 o'r Ddeddf hon yn ymwneud â gorfodi, apelau a gweithdrefnau cynllunio penodol eraill. Mae'n gwneud darpariaeth—

(a) o ran galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddyroddi hysbysiadau rhybudd gorfodi;

(b) ynghylch yr amgylchiadau pan ystyrir bod person sy'n apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio;

(c) ynghylch yr amgylchiadau pan na chaiff person apelio yn erbyn gwrthod cais am ganiatâd cynllunio neu yn erbyn hysbysiad gorfodi;

(d) o ran atal amrywio ceisiadau penodol unwaith y mae hysbysiad am apêl wedi ei gyflwyno;

(e) i apelau yn erbyn hysbysiadau mewn cysylltiad â thir sy'n cael effaith andwyol ar amwynder gael eu gwneud i Weinidogion Cymru;

(f) ynghylch y weithdrefn ar gyfer achosion penodol a thalu costau a'u dyfarnu.

(11) Mae Rhan 8 yn ymwneud â meysydd tref a phentref. Mae'n gwneud darpariaeth—

(a) o ran cyfyngu'r amgylchiadau pan ganiateir gwneud ceisiadau i gofrestru tir yn faes tref neu bentref;

(b) ynghylch penderfynu ar ffioedd mewn perthynas â cheisiadau.

(12) Mae Rhan 9 yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch gwneud is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru ac ynghylch dehongli'r Ddeddf a'r Ddeddf yn dod i rym).